Boys and Girls Clubs of Wales

Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

# YR HYN YR YDYM YN EI WNEUD
## bychan maint

*Awst 2023*



## Andrew Borsden MBE

### CADEIRYDD

Fy nod yw dod ag arferion gorau'r sefydliad ynghyd a sicrhau bod gwaith ieuenctid o ansawdd yn cael ei gyflawni yng Nghymru a thu hwnt. Rwy'n edrych ymlaen at y dyfodol ac rwy'n dymuno y byddwn i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i fynd â chlybiau bechgyn a merched Cymru i'r lefel nesaf.

## Grant Poiner

### PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL



Fy nod yw gyrru'r sefydliad yn ei flaen a chynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc o fewn ein haelodaeth. Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru nid yn unig yn glynu wrth eu cenhadaeth draddodiadol o wasanaethu ein pobl ifanc yma yng Nghymru, ond hefyd yn cymryd cam mawr i'r llwyfan byd-eang!

### YMDDIRIEDOLWYR

**Is-gadeirydd:** R Fussell
**Trysorydd:** R Williams
**Ysgrifennydd:** Vacant
**Pêl-droed:** A Howells
**Rygbi:** A Morgan

**Aelodau:** P John, S Khaireh, J Lloyd, C Evans

### TÎM RHEOLI

**Apple Tang** - Rheolwr Cymorth a Chyllid Sefydliadol - rheoli cyllid y sefydliad a threfnu gweithrediad y Pencadlys.

**Gayle Harris** - Rheolwr Datblygu Busnes - codi arian ar gyfer y sefydliad, darparu cymorth a chynghori clybiau sy'n aelodau.

**Jonathan Price** - Rheolwr Gwaith Ieuenctid - rheoli tîm o weithwyr ieuenctid i gyflwyno prosiectau ieuenctid i bobl ifanc o'r clybiau sy'n aelodau.

### CLYBIAU SY'N AELODAU

132 o aelodau cyswllt ar draws y 22 sir yng Nghymru. Ymhlith y clybiau neu'r sefydliadau hyn mae 27 clwb bocsio, 39 clwb pêl-droed, 34 o glybiau ieuenctid a chymunedol a 32 clwb rygbi. (Awst 2023)

Yn ôl yr ystadegau a gasglwyd gan ein clybiau sy'n aelodau, mae CBM Cymru yn cyrraedd 5381 o bobl ifanc 10 oed neu iau, 5561 o rai 11-14 oed, 3436 o rai 15-16 oed a 3454 o rai 17-25 oed.

Nid dyna'i diwedd hi! Mae CBM Cymru yn awyddus i ddilyn ein cenhadaeth a'n nod o gefnogi pobl ifanc yng Nghymru i fyw bywydau iach a hapus, datblygu sgiliau newydd, cael hwyl a gwneud cyfraniad ystyrlon i'w cymuned. Nod y sefydliad yw creu dyfodol mwy disglair i bobl ifanc yng Nghymru.

## AELODAETH GYSWLLT

Mae hyn yn golygu bod gennych gysylltiad agos â ni i gydweithio dros anghenion y bobl ifanc yn eich cymuned. Ein ffi yw £30 am gyfnod o 12 mis. Trwy'r aelodaeth gyswllt, byddwn yn cynnig gwaith ieuenctid sicr ei ansawdd a chyfleoedd gwych i bobl ifanc yn eich clwb ac yn eich cymuned. Fel sefydliad ieuenctid cenedlaethol, mae ein bwriadau wedi'u pennu ac rydym wrthi'n datblygu ein gweithrediadau yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Helpwch ni i ledaenu'r gair.




## CYLLIDWYR A PHARTNERIAID

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor y Gweithlu Addysg Education Workforce Council
CWVYS
Ariennir gan Funded by Taith
The Millennium Stadium Charitable Trust
wsa Welsh Sports Association Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Garfield Weston Foundation
Blaenau Gwent
Gwasanaeth Ieuenctid Castell-Nedd Port Talbot Neath Port Talbot Youth Service
Promo Cymru
UK Parliament
Senedd Cymru Welsh Parliament
RSBC Royal Society for Blind Children
Heddlu Police Youth Volunteer
Cronfa Gymunedol Community Fund
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Table Tennis Wales
World Federation of Youth Clubs
Boys & Girls Clubs National Association
Boys & Girls Clubs
British Council
Erasmus+
People's Postcode Lottery
Principality Building Society Cymdeithas Adeiladu
Community Foundation Wales
Ofcom
WCIA Welsh Centre for International Affairs
Street Games
SportEd
Dŵr Cymru Welsh Water
Tesco Community Grants
ogi
mad.

AELODAETH

***Cefnogi a Datblygu Busnes***




# MANTEISION AELODAETH GYSWLLT

Fel **sefydliad gwaith ieuenctid cenedlaethol** â 95 mlynedd o brofiad a hanes o lwyddo, mae **Clybiau Bechgyn a Merched Cymru** yn cynnig cyfleoedd i'n clybiau sy'n aelodau gymryd rhan yn ein cystadlaethau a'n digwyddiadau chwaraeon, a bod yn rhan o brosiectau a rhaglenni addysgol seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gall clybiau sy'n aelodau fanteisio ar ein gwasanaethau megis gwiriadau DBS, rhaglenni hyfforddi, cyngor a chefnogaeth ynghylch gwaith ieuenctid ac arfer gorau, gan helpu i gyflawni nodau cynaliadwyedd wrth gynnal y safon o fewn Rhwydwaith **CBM Cymru**





Mae Gayle Harris, Rheolwr Datblygu Busnes, ar gael i gynnig cyngor a chymorth ariannol, cysylltwch â hi yn y cyfeiriad:
**gayle@bgc.wales**

58 o fynychwyr yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 yng Nghlwb Bechgyn a Merched Treharris lle buom hefyd yn dathlu pen-blwydd y clwb yn 100 oed - ein **Clwb Bechgyn a Merched** cyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru!
Cysylltwch â'r swyddfa ar 02920 575705



**GWAITH IEUENCTID**

***Cenedlaethol a Rhyngwladol***

# PROSIECTAU MEWN CLYBIAU SY'N AELODAU

Mae gennym dîm gwych o weithwyr ieuenctid dan arweiniad ein Rheolwr Gwaith Ieuenctid, Jonathan Price. Mae'r tîm wedi ymrwymo i ddarparu gwaith ieuenctid o ansawdd uchel yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. O fewn rhwydwaith CBM Cymru, gall pobl ifanc gymryd rhan yn y prosiectau a'r rhaglenni amrywiol y mae CBM Cymru yn eu cynnig, tra bod ein tîm hefyd yn cynnal **gweithdai a phrosiectau cwricwlwm mewn clybiau sy'n aelodau**. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, tanysgrifiwch i'r eGylchlythyr ar ein gwefan www.bgc.wales. Ar ben hynny, os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu ymweliad preswyl â'r **Porthdy**, cysylltwch â Jonathan Price yn y cyfeiriad **paz@bgc.wales** i gael sgwrs.



Wythnos Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, Wythnos Wyddoniaeth, Haf o Hwyl, Gweithdy amgylchedd, Cyngor ar arbed tanwydd.



Cystadlaethau rhwng clybiau, gweithgareddau dan arweiniad ieuenctid, diogelwch ar y cyfryngau cymdeithasol, e-ddysgu, Fforwm Ieuenctid, prosiect gwirfoddoli



Cwrdd a Chodio, Arwain Chwaraeon, Pêl-droed yn erbyn Hiliaeth, Prosiect gwleidyddiaeth, gweithgareddau awyr agored.

# PANELI CHWARAEON

***Iechyd Ffordd o Fyw a datblygiad***



# CHWARAEON CBM CYMRU

Mae chwaraeon yn rhan ganolog o’n haelodaeth, gan weithredu fel "cyfrwng" trawsnewidiol sy’n fodd i bobl ifanc ddysgu sgiliau hanfodol sy'n hwyluso eu datblygiad cyffredinol. Mae CBM Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo manteision niferus chwaraeon, sy’n cwmpasu nid yn unig buddion **iechyd a ffitrwydd** ond buddion **cymdeithasol a chymunedol** hefyd. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo llwyddiant a chynorthwyo clybiau i recriwtio gwirfoddolwyr a sicrhau cyllid i hyrwyddo a meithrin chwaraeon ymhellach yn ein cymuned.







Rydym yn cynnig gweithgareddau chwaraeon cystadleuol ar lefel uchel i bobl ifanc yn ein clybiau sy'n aelodau, gan gynnwys digwyddiadau, twrnameintiau a chystadlaethau rhwng clybiau.

Mae ein Timau Cynrychioliadol Bechgyn a Merched yn cael cyfle i gystadlu ledled y wlad ac yn rhyngwladol yng ngwledydd Ewrop, Canada ac UDA.

Croesawch unrhyw nawdd i'n timau chwaraeon, cysylltwch â office@bgc.wales




CLYBIAU AELOD

*Ehangu Ein Rhwydwaith*

# EHANGU EIN RHWYDWAITH

Yn fuan wedi'r pandemig, aethom ati i ailymgysylltu â chlybiau yng **Ngogledd Cymru**. Ar hyn o bryd mae'r clybiau sy'n aelodau yn cynnwys clybiau bocsio, clybiau pêl-droed a chlybiau ieuenctid yn ardaloedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Rydym yn bwriadu sicrhau cyllid cynaliadwy i leoli swyddog yng Ngogledd Cymru i gydlynu ein prosiectau a'n rhaglenni. Ein bwriad yw datblygu ein rhwydwaith yng Ngogledd Cymru er mwyn ehangu a chreu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc y Gogledd.



Mae Clwb Iaith a **Lleferydd y Dreigiau Newydd** yn Sir y Fflint yn cynnig amgylchedd diogel, cyfeillgar ac ysgogol i bobl ifanc. Rydym yn canolbwyntio ar feithrin cyfeillgarwch, gwella sgiliau cyfathrebu a chymdeithasu, i gyd wrth gael hwyl!



Ym mis Mehefin 2023, ymwelodd y Prif Swyddog Gweithredol â **Chlwb Bocsio Clwyd** sy'n aelod cyswllt ers mwy nag 20 mlynedd. Pob clod i Daryl sydd wedi cefnogi'r bobl ifanc dros yr holl flynyddoedd hynny!



Prosiect Haf o Hwyl gyda **Pharth Ieuenctid STAND Gogledd Cymru** a ymgysylltodd â phobl ifanc a chreu stori weledol am effaith cael eich bwlio a sut y gall gwaith ieuenctid helpu pobl ifanc.

**GWYTNWCH**

***World Wrestling Entertainment***



# RALI BE A STAR - WWE

Ymunodd 52 o bobl ifanc o'n clybiau sy'n aelodau â **Rali Be a STAR WWE** a chael amser gwych. Roedd hwn yn gyfle unwaith mewn oes i'n pobl ifanc yng Nghymru. Roedd y digwyddiad yn ffordd hwyliog o hyrwyddo dulliau cadarnhaol o ryngweithio'n gymdeithasol ac annog pobl ifanc i drin eraill yn gyfartal. Diolch i'n harweinwyr am eu hamser a'r ymdrech a wnaethant i sicrhau bod modd i'w pobl ifanc fod yn rhan o'r cyfle gwych hwn.



Roedd rhai o sêr enwog WWE, sef Sarah Schreiber, Bianca Belair, Angelo Dawkins a Montez Ford yn bresennol yn y digwyddiad, gyda Vaughan Gething ac Alex Davies-Jones yn ymuno â nhw.



Roedd y cyfle yr oedd y sêr o Gymuned WWE wedi'i greu i'n pobl ifanc yn berffaith, ac roedd hefyd yn ffordd hwyliog o gyfleu'r negeseuon **gwrthfwlio**.



Bu eu gwaith yn y rali o gymorth i ni gyflawni ein cenhadaeth fel sefydliad ieuenctid, sef grymuso a chefnogi pobl ifanc i wella eu cyfleoedd bywyd ar gyfer dyfodol gwell.




**CWPAN Y BYD**

***Pêl-droed Bechgyn dan 15 a Merched dan 15 oed***

# YSBRYDOLI CENHEDLAETH

Dyfarnwyd cyllid i ni gan Lywodraeth Cymru a threfnom daith i fynd â 32 o bobl ifanc, pob un ohonynt dan 15 oed, a staff cymorth i **Boston yn America**, i chwarae gemau yn erbyn timau cynrychioliadol o America ar y diwrnod y chwaraeodd Tîm Cenedlaethol Dynion Cymru yn erbyn Tîm UDA yng **Nghwpan y Byd** yn Qatar. Pwrpas y daith hon oedd darparu cyfle a allai drawsnewid bywydau pobl ifanc o Gymru ac iddynt brofi eu sgiliau mewn gwlad arall.



**Diwrnod y Gêm (21/11/22)**

**UDA 2 - 0 CBM Cymru**




Gartref yng Nghymru, aeth 44 o glybiau sy'n aelodau ati i gynnal partïon gwylio a gweithgareddau yn ymwneud â phêl-droed, gan sicrhau etifeddiaeth pêl-droed Cymru mewn clybiau sy'n cwmpasu 3631 o bobl ifanc.



**Diwrnod y Gêm (21/11/22)**

**UDA 0 - 3 CBM Cymru**

# FFORWM IEUENCTID

***Coda dy Lais,***
***Pizza a Gwleidyddiaeth***



# LLAIS POBL IFANC

Bu **Coda dy Lais**, ein prosiect mewn partneriaeth ag MAD Abertawe a Deryn, a enillodd Wobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yn 2021, yn fodd i fagu ein hyder wrth ymgysylltu â phobl ifanc yng Nghymru i drafod gwleidyddiaeth, ei heffaith ar eu bywydau a'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Gwelwyd aelodau'r Fforwm Ieuenctid yn ffynnu yn ein rhwydwaith CBM Cymru yr ydym wedi ymrwymo i barhau ag ef, ac rydym yn falch iawn o gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality.



**Cynhaliwyd sesiynau Pizza a Gwleidyddiaeth** yn y cyfnod cyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Ymgysylltodd 450 o bobl ifanc o bob rhan o rwydwaith CBM Cymru â'r prosiect.



Cynhaliwyd **Digwyddiad Hystingau Ieuenctid** lle bu pobl ifanc 16-25 oed yn gofyn i ymgeiswyr o bob plaid wleidyddol esbonio pam y dylai pobl ifanc bleidleisio drostynt.



Cyfarfu ein haelod cyntaf o **Senedd Ieuenctid Cymru** â'r Brenin yn y Senedd! Ei rôl oedd trafod materion sy'n effeithio ar bobl ifanc a chyfrannu at lunio gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc.

**RaiseYourVoice.Wales** **CodaDyLais.Cymru**

Am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i'n gwefan a dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol



HERIAU

*Antur a gweithgareddau awyr agored*

# GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

**Her bersonol** yw hon yn hytrach na ras. Bydd y cyfranogwyr yn defnyddio'u sgiliau, eu penderfyniad a'u stamina i gyflawni nifer o'n gweithgareddau antur awyr agored. Mae'r cyflawniad hwn yn rhoi boddhad personol a fydd yn aros gyda'r unigolyn ar hyd ei oes. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle estynedig i ymgymryd â gwaith ieuenctid o safon gyda grŵp o bobl ifanc wrth iddynt wthio eu hunain i gyrraedd y nod. Nid yw'n hawdd ac mae'n gofyn gwneud cryn ymdrech ond mae'r boddhad o gwblhau'r dasg yn werth y byd.



Cymerodd 15 o bobl ifanc a 5 aelod o staff hyfforddedig ran yn y **Prawf Canŵio 100 milltir** yn 2023 ar Afon Gwy.



**Penwythnos Antur Essex**, a gynhaliwyd gan Glybiau Bechgyn a Merched Essex. Cymerodd y bobl ifanc ran mewn ystod eang o weithgareddau, megis dringo, rhaffau uchel, crefft byw yn y gwyllt, saethyddiaeth a mwy!



Rydym yn hynod o falch o'r bobl ifanc. Roedd eu gwaith caled, **eu gwytnwch** a'u sgiliau gwaith tîm yn ganmoladwy.

CYFNEWIDIADAU

*Pobl ifanc ac Ymarferwyr*




# YMWELIADAU CYFNEWID RHYNGWLADOL

Credwn fod rhaglenni cyfnewid rhyngwladol yn cynnig nifer o fanteision i bobl ifanc gan gynnwys ymwybyddiaeth ddiwylliannol, persbectif byd-eang, sgiliau iaith, sgiliau rhyngbersonol, cyfleoedd rhwydweithio a mwy - dyna pam y buom yn eu cynnal ers dau ddegawd a pham yr ydym yn parhau i wneud hynny. **Taith** yw **Rhaglen Cyfnewidfa Dysgu Rhyngwladol** newydd Cymru sy'n cefnogi gweithgareddau a fyddai wedi cael eu hariannu'n flaenorol gan raglen Erasmus+. Mae Taith yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc, staff a gwirfoddolwyr mewn sefydliadau ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yng Nghymru.



Ein **Timau Rygbi** Bechgyn yn yr Iseldiroedd tra bo'r Tîm Rygbi Merched yn cynllunio ymweliad â Ffrainc. Aeth y **Timau Pêl-droed** Bechgyn i'r Almaen ym mis Mai 2023, ac rydym newydd gyhoeddi y bydd y Timau Pêl-droed Merched yn ymweld â Sbaen ym mis Hydref 2023.




20 mlynedd o brofiad o drefnu ein **Cyfnewidfa Ieuenctid Cymru/yr Almaen** a ariennir gan Erasmus+. Cynlluniom daith yn ôl i'r Almaen yn 2023 a bydd ein taith newydd yn parhau gyda Rhaglen Addysg Dysgu Rhyngwladol Taith.



Roedd **prosiect FLW** (y Ffindir, Latfia a Chymru) **yn grymuso pobl ifanc** trwy gyfrwng dawns, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi'u heithrio o'r gamp am wahanol resymau.



PARTNERIAETH


Blaenau Gwent a Chastell-Nedd Port Talbot

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Yn 2022, buom yn cydweithio â gwasanaethau ieuenctid o wyth awdurdod lleol - Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg - i ddarparu gweithgareddau yn **y Porthdy** a chanolbwyntio ar **les pobl ifanc** a chefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithdai lles i bobl ifanc yn eu darpariaethau ieuenctid. Wrth i ni symud ymlaen i 2023-2024, rydym yn dal i weithio mewn partneriaeth â Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot ar fentrau ar y cyd sy'n parhau.



Cefnogi **Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot** yn eu clybiau a chynnig cyfleoedd CBM Cymru i'w pobl ifanc.



**Sesiynau lles** 1 i 1 ac ar gyfer grwpiau yn eu hardaloedd a'u clybiau ieuenctid, a hefyd mewn rhai clybiau sy'n aelodau o CBM Cymru.



Arhosodd 14 o bobl ifanc o **Wasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent** yn y Porthdy a chymryd rhan mewn gweithgareddau gan gynnwys y parc dŵr.

# Y POTHDY

***Gweithgareddau a Phreswyl***



# CANOLFAN BRESWYL

Rydym yn falch o gyflwyno'r **Porthdy**, ein canolfan breswyl lle'r ydym yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol pobl ifanc trwy ymweliadau preswyl wedi'u haddasu. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau antur, gweithdai lles, sesiynau adeiladu tîm a gweithgareddau crefft byw yn y gwyllt, a gweithgareddau awyr agored gerllaw sy'n cynnwys BMX, GoApe, syrffio, beicio mynydd, teithiau cerdded mynyddig, teithiau cerdded arfordirol, beiciau cwad, syllu ar sêr, sesiynau geogelcio, yn ogystal â **lle i letya grwpiau chwaraeon**.








Mae **croeso mawr i glybiau sy'n aelodau** ddefnyddio ein cyfleusterau yn y Porthdy i adeiladu tîm, cynnal digwyddiadau hyfforddi neu aros ar gyfer cystadleuaeth rhwng clybiau.

Lleoliad a chyfleuster hyfryd, anffurfiol ar ffurf tŷ bynciau **44 gwely** ar gyfer grwpiau, gyda chegin hunanarlwyo ac ystafelloedd cyffredin.

Mae'r Porthdy yn **lleoliad perffaith** i ni groesawu ein clybiau sy'n aelodau a'n hymwelwyr rhyngwladol.

**Heol Dewi Saint, Bettws, Bridgend, CF32 8TA**

**www.bgc.wales/the-lodge**



# Y DYFODOL
***Cynnig Ieuenctid***

# PROSIECTAU SYDD I DDOD

Mae **rhaglen Taith** yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ac arweinwyr clybiau sy'n aelodau gymryd rhan mewn prosiectau cyfnewid addysgol mewn gwledydd megis Unol Daleithiau America, Ffrainc, Canada, Mecsico, yr Almaen, Sbaen a mwy. Hefyd, mae **Prosiect Democrataidd** 2 flynedd yn grymuso pobl ifanc i leisio eu pryderon am eu cymunedau. Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau dan arweiniad ieuenctid a gynhelir oddi mewn i rwydwaith CBM Cymru. Mae ein **Tîm Rygbi Merched** cyntaf yn barod ar gyfer y tymor newydd. Ar ben hynny, mae **prosiect Gwirfoddolwyr Ieuenctid Heddlu De Cymru** ar fin cael ei lansio!



Bydd **MSCT** (Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm) yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau chwaraeon ac ieuenctid i bobl ifanc Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Gwynedd.



Bydd **RSBC** (Cymdeithas Frenhinol Plant Dall) yn helpu clybiau sy'n aelodau i gefnogi pobl ifanc sydd â nam ar eu golwg ac ymgysylltu â nhw.



Bydd **Prosiect Ofcom** yn gweithio gyda Promo Cymru i rymuso ein pobl ifanc i ddatblygu llythrennedd cyfryngau ac amddiffyn eu hunain ac eraill rhag cynnwys niweidiol.

# YR HYN YR YDYM YN EI WNEUD

## ac ymlaen i'r dyfodol

Boys and Girls Clubs of Wales
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

Pencoed Technology Park, Bridgend, CF35 5HZ
www.bgc.wales
029 2057 5705 office@bgc.wales Charity Number : 1009142